



Canlyniadau mewn perthynas â'r Gymraeg: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2001- 2018

29 Mai 2019
SB 21/2019

Mae'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth \(yr ABoB\)](#) yn arolwg ar raddfa fawr ar draws y Deyrnas Unedig, sy'n ymwneud â phynciau fel cyflogaeth, tai, ethnigrwydd, iechyd ac addysg yng Nghymru. Ceir cwestiynau hefyd am allu pobl o ran y Gymraeg, a pha mor aml y maent yn ei siarad.

[Y Cyfrifiad o'r Boblogaeth](#) yw'r prif ffynhonnell ar gyfer mesur nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Roedd y cwestiynau ar y Gymraeg wedi eu cynnwys yn yr ABoB at ddibenion croes-ddadansoddi yn bennaf. Er hynny, gan fod yr ABoB yn darparu gwybodaeth yn fwy rheolaidd, mae diddordeb mawr mewn defnyddio'r ABoB i weld tueddion o ran y Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

Mae llawer mwy o bobl wedi dweud ei bod yn siarad Cymraeg yn yr ABoB o'i gymharu â'r cyfrifiad ac mae hyn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r bwletin hwn yn ehangu ar [flog](#) diweddar gan y Prif Ystadegydd, a oedd yn trafod, yn fras, ddehongli data'r ABoB am y Gymraeg.

Mae'r bwletin hwn yn ystyried sut y mae'r tueddion yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau demograffeg ac mae'n ystyried rhai gwahaniaethau rhwng yr ABoB a'r cyfrifiad.

Ni ddylid defnyddio canlyniadau'r ABoB i fesur cynnydd tuag at darged Llywodraeth Cymru o [filiwn o siaradwyr Cymraeg](#). Wedi dweud hyn, mae'r ABoB, fel arolygon eraill yn ddangosydd defnyddiol o dueddion posib dros amser, a dylid ei ddefnyddio ar y cyd a data eraill.

Rhennir y bwletin ystadegol hwn yn 4 pennod:

Mae [Pennod 1](#) yn cyflwyno canlyniadau'r ABoB o ran siarad Cymraeg;

Mae [Pennod 2](#) yn cyflwyno'r canfyddiadau o ran sgiliau eraill yn y Gymraeg (er enghraifft darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar);

Mae [Pennod 3](#) yn cyflwyno'r canfyddiadau o ran pa mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg; a

Mae [Pennod 4](#) yn edrych ar resymau posib dros y gwahaniaethau yn y cyfrifiad a'r ABoB.

Ynglŷn â'r bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ABoB) mewn perthynas â'r Gymraeg, ac mae'n archwilio ambell fater o ran defnyddio'r data.

Mae'r Prif Ystadegydd wedi trafod y defnydd o ddata am y Gymraeg ar y [Blog Digidol a Data](#).

Mae peth o'r data a gyflwynir yn y bwletin hwn hefyd wedi'i gyhoeddi ar wefan [StatsCymru](#).

Yn y bwletin hwn

Siarad Cymraeg	3
Sgiliau eraill	10
Amllder	12
Y Gwahaniaeth rhwng y Cyfrifiad a'r ABoB	16
Crynodeb o'r casgliadau	17
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	18

Cefndir

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef [Cymraeg 2050](#) yn nodi gweledigaeth ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gosodwyd y llwybr tuag at y targed ar sail data Cyfrifiad 2011 ac mae'r strategaeth yn nodi'n glir bod unrhyw gynnydd a wneir tuag at y targed hwn i gael ei fonitro gan ddefnyddio data cyfrifiadau'r dyfodol. Er hynny, gan mai unwaith bob deng mlynedd y cynhelir cyfrifiad, mae awch i fonitro cynnydd yn amlach na hynny.

Mae'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth \(yr ABoB\)](#) yn arolwg ar raddfa fawr a all ddarparu data chwarterol ynghylch y Gymraeg. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r ABoB yn sylweddol uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad. Dangosodd y cyfrifiad diwethaf yn 2011 bod 562,016 o bobl yn gallu siarad Cymraeg, tra bo'r ABoB, ar gyfer yr un cyfnod (2011), yn dweud bod 769,000 o bobl yn gallu siarad Cymraeg, sydd bron yn 207,000 yn fwy o siaradwyr Cymraeg.

Felly, er **nad** yw'n bosib defnyddio canlyniadau'r ABoB i fesur cynnydd [Cymraeg 2050](#) a'r targed o filiwn o siaradwyr, mae'r ABoB yn rhoi sampl mawr iawn inni o ddata ar siaradwyr Cymraeg dros nifer o flynyddoedd, a gellir ei ddefnyddio fel dangosydd defnyddiol o dueddion posib.

Mae'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth \(yr ABoB\)](#) yn arolwg wyneb yn wyneb o oddeutu 300,000 o bobl ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Fe'i cynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae ar ei ffurf bresennol ers 2004.¹ Y prif bwrpas ys rhoi gwybodaeth am newidynnau cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol ar lefel leol. Dyma'r brif ffynhonnell o wybodaeth a ddefnyddir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer ystadegau sy'n ymwneud â chyflogaeth, yn enwedig ynghylch anweithgarwch economaidd.

Yng Nghymru, mae tua 35,000 o bobl yn cael eu cynnwys yn yr arolwg bob blwyddyn ac mae'r cwestiynau canlynol wedi'u cynnwys am y Gymraeg i'r rhai sy'n dair oed neu'n hŷn:

- Ydych chi'n deall Cymraeg llafar?
- Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?
- Ydych chi'n gallu darllen Cymraeg?
- Ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?
- Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg?

Nod y bwletin ystadegol hwn yw cyflwyno dadansoddiad manylach o ganlyniadau'r cwestiynau ar y Gymraeg sydd yn yr ABoB (Pennod 1), yn ogystal ag edrych ar rai o'r rhesymau posib sy'n esbonio pam y mae canlyniadau'r cyfrifiad a'r ABoB yn wahanol.

¹ Mae'r canlyniadau yn y bwletin hwn ar gyfer 2001 hyd 2003 yn dod o'r Arolwg o'r Llafurlu, cyn l hwnnw ddod yn rhan o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Pennod 1: Siarad Cymraeg


Y gallu i siarad Cymraeg yw'r ystadegyn a adroddir arno amlaf. Hwn yw'r un hefyd sy'n denu'r mwyaf o ddiddordeb. Adroddodd yr ABoB fod 898,700 o bobl tair oed neu hŷn (neu 29.9%) yn adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018.

Mae Siart 1 yn dangos bod nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n raddol ers bob blwyddyn ers mis Mawrth 2010 (25.2%, 731,000), ar ôl gweld dirywiad cyson o 2001 i 2007. Dengys y canlyniadau diweddaraf bod *canran* y siaradwyr Cymraeg wedi codi'n ôl i'r hyn a ddywed yr ABoB yn 2001 (pan oedd 30.0%, neu 834,500 o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg).

Dyma'r nifer fwyaf erioed o siaradwyr Cymraeg a gafwyd yn yr ABoB. Er bod data arolygon yn gallu amrywio o chwarter i chwarter, mae canlyniadau'r ABoB yn dangos cynnydd cyson dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n dangos y gallai nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg fod yn cynyddu.

Bu cynnydd tebyg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn y blynyddoedd diwethaf wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys y rheiny sy'n adrodd eu bod yn siarad ychydig o eiriau yn unig). Felly gallai'r arolygon hyn fod yn cyfleu tueddion tebyg o ran nifer gynyddol o bobl yn siarad ychydig o Gymraeg, neu pobl yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwneud hynny.

Siart 1: Nifer y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, 2001 hyd 2008




Mae canlyniadau'r ABoB wedi bod yn llawer uwch na chanlyniadau'r cyfrifiad yn gyson. Mae canlyniadau cyfrifiad 2001 a 2011 hefyd wedi cael eu plotio ar y siart hwn, er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng y ddwy ffynhonnell ar gyfer yr un cyfnod. Gellir gweld, rhwng y ddau gyfrifiad yn 2001 a 2011, bod lleihad o 20,000 o siaradwyr Cymraeg. Mae'r ABoB hefyd wedi cofnodi dirywiad rhwng 2001 a 2011, ond 65,500 yw'r nifer hwnnw. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg ymhell dros 800,000 yn 2001 dim ond 582,400 o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yn ôl y cyfrifiad. **O ystyried bod sylfaen y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn seiliedig ar amcangyfrifon y cyfrifiad, mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith na ellir defnyddio ffigurau'r ABoB i fonitro cynnydd yn erbyn y targed.**

Gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran

Mae Siart 2 yn dangos y gyfran o bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ystod y flwyddyn, hyd at fis Rhagfyr 2018, yn ôl oedran. Mae canran y plant sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn cynyddu gydag oedran, ac mae ar ei fwyaf ymysg plant 12 i 15 oed, sef 68%. Mae'r canran yn gostwng wrth i'r ymatebwyr fynd yn hŷn, gyda chynnydd bychan eto ar gyfer y rheini sy'n 85 neu'n hŷn.

Siart 2: Canran sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, fesul grŵp oedran, 2018




Mae'r ffigurau ar gyfer plant yn sylweddol uwch na'r ffigurau a welir mewn ffynonellau eraill, gan gynnwys data a gesglir drwy ysgolion neu'r Arolygon Defnydd Iaith blaenorol a'r cyfrifiad diwethaf.

Rhaid i ymatebwyr yr ABoB fod yn 16 oed a throsodd, felly dylid cofio bod yr atebion a roddwyd gan y rheini sydd o dan 16 oed yn cael eu rhoi gan eu rhieni neu oedolion eraill yn y cartref, ac nid gan yr unigolion eu hunain.


Gofynnir i ymatebwyr yr ABoB ymateb ar ran oedolion eraill yn y cartref. Pan dynnir yr atebion 'procsi' hyn, mae'r gyfran o oedolion (16 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn is (23% yn lle 25%). Mae'r gwahaniaeth rhwng ymatebion 'procsi' ac ymatebion 'personol' ar ei fwyaf ymysg yr ymatebwyr sy'n oedolion ifanc (hynny yw, unigolion 16-24 oed), sy'n awgrymu bod aelodau eraill o'r aelwyd yn goramcangyfrif gallu aelodau eraill o ran y Gymraeg. Mae Siart 3 isod yn dangos sut y mae'r canlyniadau'n wahanol o ystyried a ydynt yn ymatebion personol neu'n ymatebion procsi.

Siart 3: Canran sy'n adrodd y gallant siarad Cymraeg, yn ôl oedran a math o ateb, 2018



Er mwyn edrych ar y tuedd hwn fesul blwyddyn oedran, rydym wedi grwpio gwerth tair blynedd o ddata ynghyd i gael sampl mwy (2016-18). Dangosir hyn yn Siart 4 isod. Mae Siart 4 hefyd yn dangos canlyniadau Cyfrifiad 2011 a chanlyniadau'r ABoB o gyfnod Cyfrifiad 2011 (hynny yw, 2010-12).

Siart 4: Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran, ffynhonnell a blwyddyn




Mae Siart 4 yn dangos, pan edrychwn ar ddata'r ABoB o ran gallu siarad Cymraeg ar gyfer 2010-12 (hynny yw, tua chyfnod Cyfrifiad 2011), fod y tuedd cyffredinol yn debyg i'r tueddiad yn y Cyfrifiad. Mae cynnydd ymhlith yr ifanc o 3 hyd 9 mwyd oed, a chynnydd arall wedyn ymhlith plant 11 i 15 mlwydd oed. Efallai y gellir priodoli hyn i'r ffaith bod y plant hyn yn mynychu'r ysgol gynradd ac yna'r ysgol uwchradd. Ar ôl hyn, ymddengys bod y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn cwmpo'r sylweddol rhwng 16 a 21 oed, gyda chwymp llai i ddilyn, cyn i bethau sefydlogi ymhlith pobl yn eu tridegau a hŷn. Mae data'r Cyfrifiad ar lefel is na data'r ABoB; ymddengys bod data'r Cyfrifiad yn gyson tua 4-5 pwynt canran yn is na data'r ABoB ar gyfer pobl 24 oed neu hŷn, a bod y gwahaniaeth tipyn yn fwy, tua 15 pwynt canran, ar gyfer yr oedrannau 7 i 20.

Wrth gymharu canlyniadau'r ABoB ar gyfer 2016-18 gyda chanlyniadau'r ABoB ar gyfer 2010-12, gwelwn o Siart 4 ar y cyfan, er bod y data'n codi a gostwng, fod y gyfran sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2016-18 ar bob oedran tua 3 pwynt canran yn uwch ar gyfartaledd nag yn 2010-12.

Mae Siart 5 yn dangos sut y mae'r canrannau sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi newid ar gyfer grwpiau oedran ehangach dros amser.

Siart 5: Canran y bobl dros dair oed sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 i 2018



Eto, mae Siart 5 yn dangos mai plant 3 i 15 yw'r mwyaf tebygol i ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Y grŵp oedran hwn sydd wedi gweld y cynnydd canrannol mwyaf o ran siaradwyr Cymraeg dros y degawd diwethaf. Mae'r grŵp oedran hwn yn gyfrifol am drydedd rhan o'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers 2008


Nid yw'n glir i ni a yw'r cynnydd a ddangosir ar gyfer plant 3 i 15 dros y blynyddoedd diwethaf yn gynnydd real neu yn gynnydd oherwydd bod canfyddiad y rhieni o allu eu plant yn y Gymraeg wedi newid am ryw reswm. Nid yw'r cynnydd a welir yma ar gyfer y grŵp oedran yma yn amlwg wrth ddadansoddi [data gweinyddol](#) a gyflwynwyd gan ysgolion.

Mae cynnydd tebyg wedi bod mewn grwpiau oedran eraill mewn cyfnodau diweddar, ond mae'r cynnydd hwn, yn gyffredinol, wedi adfer y grwpiau oedran hyn i lefelau a oedd yn debyg i'r hyn oeddent yn 2001.

Siarad Cymraeg, yn ôl rhyw

Mae Siart 6 yn edrych ar ganran y gwrywod a'r benywod sydd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg o 2001. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2018, rydym yn gweld bod 28% o wrywod yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â 32% o fenywod.


Siart 6: Canran y gwrywod a'r benywod tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, 2001 to 2018



Fel y mae Siart 6 yn dangos, tra bo'r ddau ryw yn dilyn yr un tueddiad yn gyffredinol, mae benywod wastad yn fwy tebygol na gwrywod i ddweud eu bod yn gallu siarad. Mae'n debyg hefyd bod y bwch rhwng gwrywod a benywod yn mynd yn fwy dros y blynyddoedd diweddar.

Mae Siart 7 yn dangos y canlyniadau hyn, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2018 yn ôl rhyw ac oedran. Gwelwn fod benywod o bob oed yn fwy tebygol na gwrywod o ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y rhywiau yn y grŵp oedran 16 i 19 ac mae'r bwch yn lleihau wrth fynd yn hŷn.


Siart 7: Canran y gwrywod a'r benywod tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl oedran, 2018



Siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol

Mae Siart 8 yn rhoi canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl ardal awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2018. Gwelir y canrannau mwyaf yn ardal awdurdod lleol Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion, tra bo'r canrannau isaf yn ardaloedd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen a Sir Fynwy.


Siart 8: Canran y bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol 2018



Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol ac ynddynt y *niferoedd* mwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Caerfyrddin, Gwynedd a Chaerdydd, gyda 94,100, 91,900 a 81,000, yn y drefn honno, yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yr awdurdodau lleol sydd â'r nifer leiaf o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn byw ynddynt yw Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent a Thorfaen gyda 10,900, 13,200 a 15,000 o siaradwyr yn y drefn honno. Mae canlyniadau'r ABoB ar gyfer pob awdurdod lleol i'w canfod ar wefan [StatsCymru](https://www.statscymru.gov.uk/).

Rydym wedi gweld o Siart 1 bod nifer y bobl sy'n dweud ei bod yn siarad Cymraeg wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Mae Siart 9 yn dangos y newid yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob awdurdod lleol ers 2008.

Siart 9: Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn 2008 a 2018, fesul awdurdod lleol




Gellir gweld bod cynnydd wedi bod yn y ganran sydd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg dros y degawd diwethaf ar gyfer yr holl awdurdodau lleol ac eithrio Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen a Sir y Fflint. Yng Ngheredigion y gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran canran (o 52% yn 2008 i 60% yn 2018, sy'n gynydd o 8 pwynt canran).

Pennod 2: Darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar

Yn ogystal â gofyn am allu siarad Cymraeg, mae'r ABoB hefyd yn gofyn i ymatebwyr am eu gallu i deall Cymraeg llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Dangosir y canlyniadau hyn ar y cyd â gallu pobl i siarad Cymraeg yn Siart 10.


Siart 10: Canran y bobl dair oed a throsodd sy'n gallu deall, darllen ysgrifennu a siarad Cymraeg 2001-2018



Mae Siart 10 yn dangos nad yw'r cynnydd mewn sgiliau Cymraeg hunan-gofnodedig yn yr ABoB wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg; gwelwyd tueddion tebyg o ran deall, ysgrifennu a darllen. Fel y gellid disgwyl efallai, gwelwn y bydd mwy o bobl yn dweud eu bod yn deall Cymraeg llafar nag sy'n gallu siarad Cymraeg. Dilynir hyn gan ddarllen Cymraeg ac wedyn y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg. Ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2018, dywedodd 35% eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, 30% yn gallu siarad, 27% yn gallu darllen, a 24% yn gallu ysgrifennu. Yng Nghyfrifiad 2011, y canrannau hyn oedd 23%, 19%, 18% a 16% yn y drefn honno.


O ran siarad Cymraeg, mae benywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn deall Cymraeg llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg fel y gwelir yn Siart 11. Mae'r bwlch i'w weld yn gyson rhwng gwrywod a benywod yn y pedwar sgil.

Siart 11: Deall Cymraeg llafar, siarad, darllen ac ysgrifennu, yn ôl rhyw, 2018



Mae Siart 12 yn dangos sut y mae deall Cymraeg llafar, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn amrywio yn ôl oedran.


Siart 12: Deall Cymraeg llafar, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oedran, 2018



Yma gwelwn fod y bwch rhwng y gallu i ddeall a siarad Cymraeg a darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar ei fwyaf ymysg plant 3 i 7 oed. Mae'r bwch hwn yn lleihau wrth i blant symud drwy'r system addysg. Ar gyfer plant 3 i 7 oed, does dim llawer o wahaniaeth yn y bwch rhwng deall Cymraeg llafar a siarad Cymraeg, ond mae'r bwch yn cynyddu'n raddol wrth i'r ymatebwyr fynd yn hŷn. Gellir gweld perthynas debyg ar gyfer darllen ac ysgrifennu, ond ar gyfer plant 8 i 19 oed, ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y canrannau sy'n gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Er hynny, mae'r bwch yn mynd yn fwy o edrych ar ddata o 20 oed ymlaen.

Drwy grwpio tair blynedd o ddata er mwyn cael samplau mwy, ac edrych ar bob sgil ar wahân, gallwn weld sut mae'r canlyniadau o Gyfrifiad 2011 ac o'r ABoB 2010-12 yn cymharu â data 2016-18.

Siart 13: Deall Cymraeg llafar, siarad, darllen ac ysgrifennu, yn ôl oedran, ffynhonnell a blynyddoedd 2018



Mae Siart 13 yn dangos i ni fod data'r ABoB ar gyfer gallu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn dilyn patrwm tebyg i'r hyn a welwyd yn y Cyfrifiad, ond ar lefel uwch. O ran Siart 4, mae'r gwahaniaeth rhwng y Cyfrifiad a'r ABoB ar ei fwyaf ar gyfer y rhai o oedran ysgol.


Wrth gymharu canlyniadau'r ABoB ar gyfer 2016-18 gyda chanlyniadau'r ABoB ar gyfer 2010-12, gallwn weld yn glir, o ran plant, bod y gyfran sy'n gallu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn uwch yn 2016-18 nag yr oedd yn 2010-12. Mae'r gwahaniaeth yn llai amlwg ymysg oedolion.

Pennod 3: Pa mor aml y siaredir Cymraeg

Yn wahanol i'r Cyfrifiad, mae'r ABoB hefyd yn cynnwys cwestiwn sy'n holi pa mor aml y siaredir Cymraeg gan siaradwyr Cymraeg, a rhoddir y dewisiadau 'yn ddyddiol', 'yn wythnosol' 'yn llai aml na hynny', neu 'byth'. Yn ystod y flwyddyn, hyd at fis Rhagfyr 2018, dywedodd 17% eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol (sy'n cyfateb i 499,900 o bobl neu 56% o siaradwyr Cymraeg), dywedodd 5% eu bod yn siarad Cymraeg yn wythnosol, 7% yn llai aml na hynny a dywedodd 2% nad oeddent byth yn siarad Cymraeg (a'r 70% yn methu â siarad Cymraeg) Dengys Siart 14 sut y mae hyn wedi newid ers i'r cwestiwn ymddangos gyntaf yn 2007.

Ein hoff ffynhonnell ddata ar y defnydd o'r Gymraeg yw Arolygon Defnydd Iaith, cyfres o arolygon unigol. Mae hyn yn cynnwys ystod o gwestiynau ar ddefnydd siaradwyr Cymraeg o'r iaith sy'n caniatáu i'r data gael ei ddehongli'n fanylach. Yn yr arolygon diwethaf yn 2013-15, nododd 12% o'r boblogaeth eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, ychydig yn is nag amcangyfrifon yr ABoB ar gyfer yr un cyfnod. Unwaith eto, nid yw'n glir pam mae ffigurau'r ABoB yn dangos lefelau llawer uwch o hunan-gofnodi na ffynonellau eraill.

Siart 14: Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg 2007- 2018




Mae Siart 14 yn dangos cynnydd cyson, ers 2007, yng nghanran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd, o 13% (387,800) yn 2007 i 17% (499,900) yn 2018, tra mai dim ond cynnydd bychan iawn sydd i'w weld yn y gyfran sy'n ei siarad yn llai aml na'n ddyddiol.

Roedd benywod yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn ddyddiol (18%) na gwrywod (15%).

Mae pa mor aml y siaredir Cymraeg yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran, fel y mae Siart 15 yn ei ddangos.


Siart 15: Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg, yn ôl oedran, 2018



Mae Siart 15 yn dangos bod plant yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol nag oedolion. Mae'n debyg bod hyn oherwydd eu bod yn cael e trwytho yn y Gymraeg drwy addysg. Er mai'r rhai rhwng 12 a 15 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o ddweud eu bod yn siarad Cymraeg, y rhai rhwng 8 ac 11 oed sydd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg bob dydd. Mae 4% o'r rhai 16 i 19 oed yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt byth yn gwneud hynny.

Mae pa mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg hefyd yn amrywio o awdurdod i awdurdod, fel y mae Siart 16 yn ei ddangos.

Siart 16: Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg, fesul awdurdod lleol, 2018




Fel a ddangosir yn Siart 16, yr awdurdodau lleol â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg sydd hefyd â'r ganran uchaf o bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiad yn gyfartal ymhlith siaradwyr Cymraeg. Mae 84% o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn siarad Cymraeg yn ddyddiol o'i gymharu â 31% o siaradwyr Cymraeg ym Mhen-y-bont. Mae gan Gaerdydd ganran ychydig yn uwch o siaradwyr Cymraeg dyddiol nag y gellid disgwyl o feddwl am y canran sy'n gallu siarad Cymraeg yno (12% o boblogaeth Caerdydd sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, sef 51% o siaradwyr Cymraeg Caerdydd). Efallai fod hyn gan fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn fwy yng Nghaerdydd, a'r dwysedd yn uwch.

Er ei fod ar lefel uwch, mae'r dosbarthiad o ran defnydd iaith ar gyfer awdurdodau lleol a ddangosir yn Siart 16 uchod yn debyg i'r hyn a welir yn yr Arolwg Defnydd Iaith yn 2013-15.

Ac eithrio Rhondda Cynon Taf, mae pob ardal awdurdod lleol arall wedi gweld cynnydd bychan yng nghyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ers 2007 (nid oedd newid yn Rhondda Cynon Taf). Mae Ceredigion a Sir Benfro wedi gweld cynnydd sy'n fwy na'r cyfartaledd. Yn 2007, nododd 37% o bobl Ceredigion eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. Erbyn 2018, y ffigwr oedd 48%. Yn Sir Benfro, nododd 10% eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd yn 2007; 16 % oedd y ffigwr erbyn 2018.

Siart 17: Siarad Cymraeg yn ddyddiol yn 2007 a 2018, fesul awdurdod lleol



Pennod 4: Pam y mae canlyniadau'r Cyfrifiad a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn wahanol?

Mae'r cwestiwn am allu yn y Gymraeg wedi'i eirio bron yn union yr un fath yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac yn y Cyfrifiad. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau rhwng y ffynonellau a allai egluro pam y mae'r canlyniadau'n wahanol.

- Mae'r Cyfrifiad yn holiadur hunan-lenwi statudol, tra bo'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn arolwg gwirfoddol, sy'n defnyddio cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn bennaf².
- Mae'r cwestiwn yn y cyfrifiad yn gofyn i ymatebwyr i roi tic ym 'mhob blwch sy'n berthnasol'; nid pawb sy'n darllen y cyfarwyddyd hwn, ac efallai y byddant yn ticio un blwch yn unig. Fodd bynnag, mewn arolwg o dan arweiniad cyfwelydd, bydd y cyfwelydd yn gofyn am bob sgil ar wahân, sydd felly'n cynyddu'r posibilrwydd o gael rhai pobl yn dweud bod ganddynt beth gallu yn y Gymraeg.
- Wrth i ymatebwyr wynebu un cwestiwn yn unig, mewn arolwg statudol swyddogol, rhaid iddynt wneud dewis pendant a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Gyda chyfwelydd, efallai bod yr ymatebydd yn gallu disgrifio lefel ei allu yn fanylach, ac efallai bod y cyfwelydd yn annog ymatebwyr i ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg er mwyn gallu rhoi mwy o fanylion am eu gallu yn y cwestiynau sy'n dilyn.
- Gallai presenoldeb cyfwelydd hefyd gyflwyno rhywfaint o effaith 'dymunoldeb cymdeithasol', lle mae'r ymatebwr am roi'r ateb mwyaf dymunol. Gallai hyn gael ei danlinellu yn yr ABoB drwy gael y cwestiwn ar allu i siarad Cymraeg yn syth ar ôl cael cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol. Roedd gan y Cyfrifiad gwestiwn ar ethnigrwydd rhwng y ddau.
- Yn yr ABoB, gofynnir i ymatebwyr ymateb ar ran aelodau eraill y cartref. Darganfuwyd, o dynnu'r yr ymatebion 'procsi' hyn, bod y gyfran sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ychydig yn is, yn enwedig felly ar gyfer ymatebwyr iau 16-24 oed, sy'n awgrymu y gallai cyd-aelodau'r cartref fod yn goramcangyfrif gallu aelodau eraill yn y Gymraeg. Mae'r Cyfrifiad hefyd yn caniatáu ymatebion procsi, ond gan ei fod yn holiadur i lenwi eich hunan, mae mwy o amser i ymgynghori ag aelodau eraill o'r cartref ynghylch yr ymateb yr hoffent ei roi.
- Dylid cadw mewn cof hefyd bod asesiad siaradwyr o ba mor dda y maent yn siarad iaith yn gallu bod yn eithaf goddrychol. I rai pobl, mae'r gallu i ddweud ychydig eiriau yn yr iaith yn ddigon iddynt ddweud eu bod yn ei siarad. Gall eraill, er eu bod yn ei siarad yn rheolaidd, ddweud na allant ei siarad os ydynt yn teimlo eu bod yn fwy cyfforddus yn siarad iaith arall.

Am y rhesymau hyn, gallai rhai ymatebwyr sydd wedi dweud eu bod siarad Cymraeg yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod wedi dweud nad oeddent yn siarad Cymraeg wrth lenwi holiadur y Cyfrifiad.

² Ar ôl cysylltu ag ymatebwyr wyneb yn wyneb yn y lle cyntaf, gallant wneud y cyfweiliad dros y ffôn.

Crynodeb o'n casgliadau

Allwn ni ddefnyddio canlyniadau'r ABoB i asesu nifer y siaradwyr Cymraeg?

Mae'r materion y mae'r bwletin hwn yn tynnu sylw atynt yn pwysleisio natur oddrychol hunanasesu gallu ieithyddol a goblygiadau hyn wrth gyfrif nifer y siaradwyr Cymraeg. Rydym wedi bod yn ymwybodol ers peth amser bod ymatebwyr arolwg yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn siarad Cymraeg nag yn y Cyfrifiad – gallwn ond ddyfalu beth yw'r rhesymau am hyn.

Rydym yn glir **na** ddylai canlyniadau'r ABoB gael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n ddangosydd defnyddiol o dueddion posib, a dylid eu defnyddio ar y cyd â data eraill.

Beth mae arolygon eraill yn dweud wrthym?

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi tueddu i gael canran uwch o siaradwyr Cymraeg na'r Cyfrifiad. Dangosodd y [canlyniadau](#) diweddaraf (2017-18), a gyhoeddwyd ar 20 Mehefin 2018, fod 19% o'r boblogaeth 16 oed ac yn hŷn yn gallu siarad Cymraeg, gyda 12% ychwanegol yn dweud bod ganddynt rhywfaint o allu i siarad Cymraeg.

Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu tueddiad tebyg i'r hyn a welwyd yn Arolygon Defnydd Iaith 2013-15 – sef bod canran gynyddol o bobl yn adrodd bod ganddynt rhywfaint o allu i siarad Cymraeg (sydd efallai ond yn olygu ychydig o allu yn y Gymraeg).

Beth yw ein casgliadau am nifer y siaradwyr Cymraeg?

Mae'n edrych yn debyg *bod* tuedd cynyddol yn y niferoedd sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg mewn arolygon - a hynny yn yr ABoB a'r rheiny sy'n nodi bod ganddynt rywfaint o allu yn y Gymraeg yn yr Arolwg Cenedlaethol. Mae angen inni ddeall nawr a yw'r duedd a welir ymysg plant 3 i 15 oed yn arwydd o newid gwirioneddol yn y gallu i siarad Cymraeg, neu'n dueddiad cynyddol ymysg rhieni i nodi bod eu plant yn gallu siarad Cymraeg.

Bydd angen inni aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2021 i fesur y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr ONS) sy'n cynnal yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (yr ABoB). Mae'n arolwg parhaus o aelwydydd ar raddfa fawr gyda thua 320,000 o ymatebwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Mae'r arolwg yn ymdrin â phynciau megis cyflogaeth a diweithdra, tai, ethnigrwydd, crefydd, iechyd, ac addysg. Mae'r data ar gael yn chwarterol.

Mae'r canlyniadau a drafodir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd yng Nghymru rhwng Ionawr 2001 a Rhagfyr 2018. Yng Nghymru, roedd tua 35,000 o ymatebwyr bob blwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut y cynhaliwyd yr arolwg, ynghyd â gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg ar gael ar [wefan yr ONS](#).

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau sy'n cael eu dyfynnu yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn. Mae ymatebion 'Ddim yn gwybod' a 'Gwrthod' wedi cael eu dileu. Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

Er fod gan yr Arolwg Blynyddol sampl enfawr, mae'r amcangyfrifon yn destun i rywffaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Mae cyfyngau hyder yn cynnig ystod lle mae'r gwir werth yn debygol o fod. Mae'r tabl isod yn rhoi cyfyngau hyder 95% ar gyfer y gyfran sy'n siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran ac awdurdod lleol i roi syniad o gywirdeb y canlyniadau yn y bwletin.

		Gallu Siarad Cymraeg			
		%	95% CH Isaf	95% CH Uchaf	CH +/-
Cymru		29.9%	29.9%	30.0%	0.1%
Awdurdod lleol	Ynys Môn	67.9%	67.5%	68.2%	0.4%
	Gwynedd	77.1%	76.9%	77.3%	0.2%
	Conwy	41.3%	41.0%	41.6%	0.3%
	Sir Ddinbych	37.1%	36.8%	37.4%	0.3%
	Sir y Fflint	23.5%	23.2%	23.7%	0.2%
	Wrecsam	26.5%	26.3%	26.8%	0.2%
	Powys	30.2%	29.9%	30.4%	0.3%
	Ceredigion	60.1%	59.7%	60.4%	0.4%
	Sir Benfro	30.6%	30.3%	30.8%	0.3%
	Sir Gaerfyrddin	52.5%	52.3%	52.7%	0.2%
	Abertawe	23.5%	23.3%	23.6%	0.2%
	Castell-nedd Port Talbot	26.1%	25.8%	26.3%	0.2%
	Pen-y-bont ar Ogwr	16.5%	16.3%	16.7%	0.2%
	Bro Morgannwg	20.4%	20.2%	20.6%	0.2%
	Caerdydd	23.1%	23.0%	23.3%	0.1%
	Rhondda Cynon Taf	22.4%	22.2%	22.6%	0.2%
Merthyr Tudful	19.4%	19.0%	19.7%	0.3%	
Caerffili	23.5%	23.3%	23.7%	0.2%	
Blaenau Gwent	19.6%	19.3%	19.9%	0.3%	
Tor-faen	17.0%	16.7%	17.2%	0.2%	
Sir Fynwy	17.9%	17.7%	18.2%	0.3%	
Casnewydd	21.3%	21.1%	21.5%	0.2%	

		Gallu Siarad Cymraeg			
		%	95% CH Isaf	95% CH Uchaf	CH +/-
Grŵp Oedran	3-7	49.6%	49.4%	49.8%	0.2%
	8-11	63.1%	62.9%	63.3%	0.2%
	12-15	68.1%	67.8%	68.3%	0.3%
	16-19	50.5%	50.3%	50.8%	0.3%
	20-24	28.8%	28.6%	28.9%	0.2%
	25-34	25.7%	25.6%	25.9%	0.1%
	35-44	23.1%	23.0%	23.2%	0.1%
	45-54	21.8%	21.7%	21.9%	0.1%
	55-64	21.2%	21.1%	21.3%	0.1%
	65-74	21.0%	20.8%	21.1%	0.1%
	75-84	21.7%	21.6%	21.9%	0.2%
	85+	25.0%	24.6%	25.3%	0.3%

Ar gyfer 95% o samplau arolygon, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigur ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe bai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth yn gyfan). Yn gyffredinol, y lleiaf yw maint y sampl, y mwyaf yw'r lwfans ansicrwydd.

Fel sy'n wir ar gyfer unrhyw arolwg, mae'n bosibl y gallai amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau samplu eraill effeithio ar ganlyniadau'r Arolwg Blynyddol. Er enghraifft, oherwydd diffyg ymateb; oherwydd efallai na fyddai ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddent yn ymateb yn gywir; ac oherwydd y gallai cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornadau yn gyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu.

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Dan adran 10 (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("[dangosyddion cenedlaethol](#)") y gellir eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Ni ddefnyddir yr ABoB at ddibenion y Dangosyddion Cenedlaethol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol ar gyfer dau o'r [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Dyma'r canrannau o'r boblogaeth sy'n:

- [Siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg](#) (Rhif 36),
- [Gallu siarad Cymraeg](#) (Rhif 37)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am '[Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: <https://llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-2001-i-2018>

Y diweddariad nesaf

Nid yw'n gyhoeddiad rheolaidd

Hoffem ni gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i DataIaithGymraeg@llyw.cymru

Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

